MEMORANDWM O DDEALLTWRIAETH

CYNGHORAU CYMUNEDAU CYMRAEG GWYNEDD

Drwy arwyddo'r ddogfen yma rydym yn cadarnhau fod gan Gyngor Cymuned Botwnnog NOD STRATEGOL o warchod a chynyddu niferoedd siaradwyr, aelwydydd a defnydd o'r Gymraeg.

Rydym yn ymuno efo rhwydwaith o Gynghorau Cymunedau Cymraeg sy'n rhannu'r Nod Strategol er mwyn –

- datgan ein cefnogaeth i weithredu argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a rhannu gweledigaeth strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050.
- cefnogi ein gilydd yn wyneb unrhyw her neu wrthwynebiad i'n Cyngor ni neu i Gyngor Cymuned arall weithredu yn unol â'r Polisi Iaith neu'r Memorandwm yma.
- galw ar y llywodraethau am fwy o reolaeth ac adnoddau i wneud penderfyniadau lleol er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- galw ar Gyngor Gwynedd hwyluso a chefnogi Cynghorau Cymuned a Thref mewn cymunedau Cymraeg i sefydlu a gweithredu Polisïau Gosod a Gwerthu Lleol ar bob tŷ cymdeithasol a fforddiadwy, gyda'r nod o gynyddu niferoedd siaradwyr, aelwydydd a defnydd o'r Gymraeg yn unol â nod strategaeth Cymraeg 2050.
- galw ar i Gyngor Gwynedd wario canran resymol o arian y premiwm a threthi twristiaeth ar gynlluniau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y cymunedau lle mae'r arian yn cael ei hel ac sydd yn dioddef waethaf o holl effeithiau niweidiol y diwydiant.
- galw ar y llywodraethau i sicrhau bod pob cyfraith, polisi, cynllun, prosiect, gweithred, trefn a phenderfyniad yn arwain at nod strategol o fwy o siaradwyr, aelwydydd a defnydd y Gymraeg.

Llofnod y Cadeirydd .....

10fed Mawrth, 2025